

Rhif: WG52942

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Barn ar y Mekanweithiau Priodol ar gyfer Gwneud Newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru

Dyddiad cyhoeddi: 8 Medi 2025

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 28 Tachwedd 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn ar y Papur Gwyrdd yn ceisio eich barn ar y dull mwyaf priodol o wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru. Mae Deddfau Trethi Cymru yn cynnwys y Deddfau sy'n pennu'r rheolau ar gyfer ein dwy dreth ddatganoledig, sef y dreth trafodiadau tir¹ a'r dreth gwarediadau tirlenwi², a'r Ddeddf sy'n darparu rheolau a phwerau i Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) gasglu'r trethi hynny, yn ogystal â sefydlu ACC ei hun³.

Bydd eich ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn helpu i lywio datblygiad posibl Papur Gwyn gan gynnwys cynigion i ddarparu mecanwaith parhaol i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru. Efallai y bydd angen deddfwriaeth newydd i roi unrhyw gynigion y gall Llywodraeth Cymru ddewis eu datblygu ar waith a bydd yn amodol ar gymeradwyaeth Senedd Cymru.

Sut i ymateb

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 28 Tachwedd 2025, drwy un o'r ffyrdd canlynol:

- llenwi ein [ffurflen ar-lein](#)
- lawrlwytho a llenwi ein [ffurflen ymateb](#) a'i he-bostio i NewidiadauiDdeddfauTrethCymru@llyw.cymru
- lawrlwytho a llenwi ein [ffurflen ymateb](#) a'i phostio i:
Is-adran Strategaeth Trethi a Chysylltiadau Rhynglywodraethol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran Strategaeth Trethi a Chysylltiadau Rhynglywodraethol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: NewidiadauiDdeddfauTrethCymru@llyw.cymru

[Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.](#)

¹ Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

² Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

³ Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru (Erthygl 6(1)(e)).

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a'i bod yn bosibl y bydd Llywodraeth Cymru o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:

dataprotectionofficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	6
Adran 1 – Trosolwg	8
Adran 2 – Cyllido Llywodraeth Cymru a rhyngweithio rhwng cyllidebau'r DU a Chymru.....	11
Adran 3 – Adolygiad o'r dulliau sydd ar gael ar hyn o bryd i Weinidogion Cymru wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru.....	14
Adran 4 – Y dulliau a ddefnyddir gan Senedd y DU a Senedd yr Alban i wneud newidiadau i'w deddfau trethi	21
Adran 5 – Dulliau posibl o wneud newidiadau gan gynnwys materion sy'n codi a'r ddeddfwriaeth y gallai fod ei hangen i hwyluso'r broses o wneud y newidiadau hynny	30
Adran 6 – Cwestiynau	36
Adran 7 – Y Gymraeg.....	38

Rhagair y Gweinidog

Roedd datganoli trethi yng Nghymru yn ddigwyddiad hanesyddol yn hanes Cymru. Mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi casglu treth trafodiadau tir a threth gwarediadau tirlenwi yn llwyddiannus ers mis Ebrill 2018 ac, hyd at fis Mawrth 2025, mae wedi codi mwy na £2bn i ariannu ein gwasanaethau cyhoeddus. Ar yr un pryd, mae datganoliad rhannol treth incwm drwy gyfraddau treth incwm Cymru (CTIC) wedi bod ar waith ers mis Ebrill 2019 gan godi, hyd at fis Mawrth 2025, fwy na £15 biliwn.

Mae ein hegwyddorion ar gyfer trethi Cymru bellach yn sefydledig. Rydym yn awyddus i ddatblygu trethi sy'n deg i'r busnesau a'r unigolion sy'n eu talu; sy'n syml, gyda rheolau clir, sy'n anelu at leihau costau cydymffurfio a gweinyddu; sy'n cefnogi twf a swyddi a fydd, yn ei dro, yn helpu i drechu tlodi; ac sy'n cynnig sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr. Defnyddir trethiant i ysgogi amcanion polisi a chynhyrchu refeniw ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yng Nghymru y mae ein dinasyddion yn dibynnu arnynt, gan helpu i greu gwlad rydym oll am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.

Gwnaethom ymgynghori'n flaenorol ar adnoddau i sicrhau y gallwn wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru⁴ ar fyr rybudd. Arweiniodd hyn at gyflwyno Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 a gymeradwywyd gan y Senedd. Rhoddodd y Ddeddf bŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau⁵ sy'n gwneud y canlynol:

- sicrhau na chaiff treth gwarediadau tirlenwi na threth trafodiadau tir eu gosod lle byddai gwneud hynny yn anghydnaws ag unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol;
- diogelu rhag achosion o osgoi trethi mewn perthynas â threth gwarediadau tirlenwi neu dreth trafodiadau tir;
- ymateb i newid i dreth ragflaenol sy'n effeithio, neu a allai effeithio, ar y symiau a delir i Gronfa Gyfunol Cymru; neu,
- ymateb i benderfyniad llys neu dribiwnlys sy'n effeithio ar weithredu unrhyw rai o Ddeddfau Trethi Cymru neu reoliadau a wneir o dan unrhyw un o'r Deddfau hynny, neu a all effeithio ar hynny.

Gwnaed gwelliannau i'r Bil byr hwn drwy gyfnodau craffu'r Senedd gan gynnwys rhwymedigaeth ar Weinidogion Cymru i adolygu'r ffordd y rhoddir y Ddeddf ar waith a'i heffaith. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gynnwys asesiad o fecanweithiau deddfwriaethol amgen ar gyfer newid Deddfau Trethi Cymru. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi casgliadau'r adolygiad erbyn 8 Medi 2026.

⁴ Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

⁵ Ceir hefyd nifer o bwerau eraill i wneud newidiadau i'r ffordd y mae Deddfau Trethi Cymru yn cael eu gweithredu, yn arbennig pennu'r cyfraddau treth.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Gwnaeth y gwelliannau hefyd gyflwyno cymal machlud a ddaw i rym ym mis Medi 2027 (yn amodol ar un estyniad posibl a gymeradwyir gan y Senedd er mwyn estyn y pŵer hyd at 30 Ebrill 2031).

Mae'r risgiau i'r refeniw a gynhyrchir gan ein trethi yn parhau, yn arbennig pan gaiff newidiadau i drethi "rhagflaenol y DU" eu gwneud gan lywodraeth y DU. Mae'r risg honno yn codi bob tro y cynhelir cyllideb yn y DU neu ddigwyddiad cyllidol arall pan all newid sy'n effeithio ar dreth ddatganoledig ddigwydd, gyda'r enghreifftiau mwyaf diweddar yn cynnwys treth dir y dreth stamp lle y diddymwyd rhyddhad anheddau lluosog (Mehefin 2024) ac y cynyddwyd y gyfradd dreth a godir ar gyfer trafodiadau anheddau ychwanegol cyfraddau uwch (Hydref 2024). Gall newidiadau o'r fath gael goblygiadau ar gyfer dinasyddion, busnesau, y farchnad eiddo ac effaith gyllidebol uniongyrchol ar adnoddau Cymru.

Mae'r papur hwn yn ceisio barn ar y trefniadau presennol ar gyfer gwneud newidiadau ac yn gwahodd cynigion ar gyfer unrhyw broses well, sydd hefyd yn effeithlon ac yn effeithiol, ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru.

Edrychaf ymlaen at ddarllen eich ymatebion.

Mark Drakeford AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

Adran 1 – Trosolwg

- 1.1 Mae'r papur gwyrdd hwn yn ceisio eich barn ynglŷn â beth yw'r dull mwyaf priodol i Lywodraeth Cymru a'r Senedd wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru⁶. Defnyddir Deddfau Trethi Cymru fel term torfol am y Deddfau sy'n llywodraethu'r rheolau sy'n ymwneud â chodi, casglu a rheoli'r trethi datganoledig. Y trethi datganoledig yw'r trethi sydd o dan reolaeth lawn Llywodraeth Cymru a'r Senedd. Nid ydynt yn cynnwys Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru). Fodd bynnag, os caiff newidiadau deddfwriaethol eu cyflwyno er mwyn gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru, yna gellir ystyried cynnwys yr Ardoll Ymwelwyr (ac, o bosibl, lunio cofrestr genedlaethol o Ddarparwyr Llety Ymwelwyr).
- 1.2 Mae'n un o egwyddorion sylfaenol ein system gyfansoddiadol, er mai mater i'r pwyllgor gweithredol yw cynnig a chodi trethi, na all osod trethi heb geisio cydsyniad, drwy eu cynrychiolwyr etholedig, y rhai a fydd yn cael eu trethu. Mae'r egwyddor hon wedi'i mynegi, ar y cyfan, drwy ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer gosod trethi. Fodd bynnag, oherwydd yr angen am hyblygrwydd, mae Senedd y DU, Senedd Cymru a Senedd yr Alban wedi darparu mecanweithiau, drwy is-ddeddfwriaeth, i'r llywodraeth allu addasu'r trethi y maent wedi cydsynio iddynt.
- 1.3 Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn ystyried y ffordd orau o gynnal yr egwyddor sylfaenol hon o'n tirwedd gyfansoddiadol ac, ar yr un pryd, sicrhau y gall y llywodraeth wneud newidiadau i gyfraith treth yn gyflym ac yn effeithiol er mwyn ymateb yn well pan fydd angen inni wneud hynny oherwydd pwysau cyllidol. Mae'n ceisio barn ar sut y gellir gwneud hyn er mwyn sicrhau bod gan Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru y mecanweithiau priodol ar gyfer gwneud newidiadau i drethi ar y cam hwn yn nhaith ddatganoli Cymru.
- 1.4 Rhennir y papur yn adrannau fel a ganlyn;
- Cyllido Llywodraeth Cymru a phrosesau cyllidebol presennol yng Nghymru a'r DU,
 - Adolygiad o'r dulliau sydd ar gael ar hyn o bryd i Weinidogion Cymru wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru,
 - Y ddulliau a ddefnyddir gan Senedd y DU a Senedd yr Alban i wneud newidiadau i'w deddfau trethi,
 - Dulliau posibl o wneud newidiadau gan gynnwys materion sy'n codi a'r ddeddfwriaeth y gallai fod ei hangen i hwyluso'r broses o wneud y newidiadau hynny.
- 1.5 Ni fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud argymhelliad ynglŷn â pha ddull yr ystyria ei fod yn fwyaf priodol. Yn hytrach, gofynnir cwestiynau yn ceisio eich

⁶ Mae Deddf Trethi Cymru yn cynnwys Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 a Deddf Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017.

barn ynghylch beth yw'r dull mwyaf priodol a materion rydych yn eu nodi wrth roi'r cynigion hynny ar waith. Er bod y ddogfen yn cynnwys nifer o bosibiliadau, fe'ch anogir i ddarparu opsiynau amgen sy'n well, yn eich barn chi. Bydd hyn yn arbennig o ddefnyddiol os oes gennych wybodaeth am enghreifftiau nad ydynt yn ymwneud â'r DU (yn arbennig y rhai sy'n ymwneud â gweinyddiaethau datganoledig tebyg mewn gwledydd eraill).

- 1.6 Mae'r papur yn cynnwys sawl cyfeiriad at yr ymgynghoriad 'Datganoli Trethi yng Nghymru – Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru'⁷, a gynhaliwyd yn 2020. Mae nifer o ddolenni hefyd wedi'u cynnwys mewn adrannau sy'n dangos rhai o'r materion a godir yn y papur gwyrdd hwn yn fanylach. Y bwriad yw y bydd y papur gwyrdd byrrach a mwy hygyrch hwn yn annog y nifer mwyaf o ymatebion. Fodd bynnag, efallai y bydd ystyried yr adrannau a nodwyd yn helpu i ddarparu materion perthnasol ychwanegol a allai helpu gyda'ch atebion a'ch cynigion.
- 1.7 Cyhoeddwyd ymateb i'r ymgynghoriad 'Datganoli Trethi yng Nghymru – Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru' ym mis Rhagfyr 2020⁸, ac roedd hynt y Bil a gyflwynwyd ar ôl yr ymgynghoriad hwnnw ym mis Rhagfyr 2021 yn cynnwys nifer o adroddiadau a allai, unwaith eto, eich helpu wrth ystyried y cwestiynau a godwyd. Yr adroddiadau hyn yw:
- Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid ar Fil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu)⁹,
 - Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Fil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu)¹⁰, a'r
 - Cofnod o daith y Bil drwy'r Senedd o'i gyflwyno i Gydsyniad Brenhinol ar gyfer Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022¹¹.
- 1.8 Bydd y papur gwyrdd hwn yn cyfeirio'n uniongyrchol at rai rhannau o'r dogfennau a'r dogfennau ymgynghori er mwyn helpu i ddangos y materion a godwyd yn fanylach. Nid oes angen cyfeirio atynt na darllen pob un o'r dogfennau yn llawn er mwyn gallu deall y mater ac ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd.
- 1.9 Mae'r papur gwyrdd hwn ond yn ceisio barn ar sut y caiff newidiadau eu gwneud i Ddeddfau Trethi Cymru. Nid yw'n ceisio barn ar y broses lle mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei chymeradwyo gan y Senedd. Pennir y broses ar gyfer cymeradwyo cyllideb Llywodraeth Cymru drwy'r Senedd yn cymeradwyo cynnig yn dilyn y broses graffu gan gynnwys sesiynau tystion. Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, mae'r cynnig, yn amodol ar gyllidebau atodol, yn pennu gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Mae

⁷ [ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru-dogfen-ymgyngghori.pdf](#)

⁸ [ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru-crynodeb-or-ymatebion.pdf](#)

⁹ [Bil Deddfau Trethi Cymru etc. \(Pŵer i Addasu\): Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor](#)

¹⁰ [Adroddiad ar Fil Deddfau Trethi Cymru etc. \(Pŵer i Addasu\)](#)

¹¹ [Bil Deddfau Trethi Cymru etc. \(Pŵer i Addasu\) 2022](#)

Llywodraeth Cymru wedi ceisio parhau i wella prosesau'r Senedd ar gyfer craffu ar y gyllideb ddrafft, gan gynnwys cyhoeddi cynlluniau gwella'r gyllideb yn rheolaidd¹².

¹² [Cynllun gwella'r gyllideb Llywodraeth Cymru 2025 i 2026 | LLYW.CYMRU](#)

Adran 2 – Cyllido Llywodraeth Cymru a rhyngweithio rhwng cyllidebau'r DU a Chymru

- 2.1 Daw cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus o sawl ffynhonnell. Daw'r swm mwyaf, sef £21bn yn 2025-26, o'r grant bloc, sef arian a ddarperir gan lywodraeth y DU o'r trethi y mae'n eu casglu yng Nghymru a gweddill y DU. Mae'r trethi datganoledig, sef y dreth trafodiadau tir, y dreth gwarediadau tirlenwi a chyfraddau treth incwm Cymru (CTIC), yn cyfrannu £4bn ac mae ardrethi annomestig yn cyfrannu £1bn arall.
- 2.2 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru wedi cael ei chyhoeddi yn dilyn Cyllideb hydref llywodraeth y DU. Mae hyn yn golygu bod cyllideb ddrafft Cymru wedi cael ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr. Ar gyfer 2026-27, cyhoeddir cyllideb un flwyddyn gan gynyddu cyllidebau adrannol yn unol â chwyddiant. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod setliad amlflwydd ac mae i'w briodoli i etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft amlinellol ar 14 Hydref. Bydd y Gyllideb Ddrafft fanwl yn dilyn ar 3 Tachwedd. Cyhoeddir y Gyllideb Derfynol ar 20 Ionawr 2026, gyda dadl a phleidlais wedi'u trefnu ar gyfer 27 Ionawr.
- 2.3 Ar adegau, pan fo gan Lywodraeth Cymru fwy o sicrwydd ynglŷn â'i chyllid am fod cyllideb amlflwydd ar waith ar gyfer y DU, bu'n bosibl i gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru gael ei chyhoeddi ynghynt. Mae'n rhaid i gyllideb derfynol Llywodraeth Cymru gael ei chymeradwyo erbyn dechrau mis Mawrth y flwyddyn ganlynol fan bellaf, er mwyn i awdurdodau lleol a sefydliadau eraill sy'n cael cyllid gan Lywodraeth Cymru allu pennu eu cyllidebau cyn y flwyddyn ariannol newydd. Felly, fel arfer, mae gorgyffwrdd rhwng cylch cyllidebol Llywodraeth Cymru gan gynnwys cyhoeddiadau sy'n ymwneud â Deddf Trethi Cymru a Bil Cyllid blynyddol y DU (sy'n gwneud newidiadau i drethi, dyletswyddau ac ardollau llywodraeth y DU).
- 2.4 Fodd bynnag, er y gallai cyllideb wariant amlflwydd roi sicrwydd ynglŷn â'r cyllid drwy'r grant bloc, bydd rhywfaint o ansicrwydd o hyn oherwydd newidiadau posibl i drethi rhagflaenol y DU. Treth ragflaenol yw treth a oedd yn cael ei chasglu yng Nghymru gan lywodraeth y DU cyn iddi gael ei datganoli i Gymru. Ar hyn o bryd ceir dwy dreth ragflaenol, sef treth dir y dreth stamp a ddisodlwyd gan y dreth trafodiadau tir a'r dreth dirlenwi a ddisodlwyd gan y dreth gwarediadau tirlenwi. Dechreuwyd casglu'r ddwy dreth ddatganoledig ym mis Ebrill 2018. Gwneir addasiad i'r grant bloc yn dibynnu ar yr hyn y byddai'r dreth ragflaenol wedi'i gasglu pe bai'r dreth ragflaenol wedi bod yn daladwy o hyd yng Nghymru. Roedd yr addasiad i'r grant bloc ar adeg datganoli yn 2018 yn seiliedig ar y swm y byddai treth dir y dreth stamp, er enghraifft, wedi'i gasglu yn 2018-19 pe bai'r dreth honno, yn hytrach na'r dreth trafodiadau tir, wedi bod yn daladwy gan drethdalwyr Cymreig.
- 2.5 Mewn blynyddoedd dilynol, cyfrifir yr addasiad i'r grant bloc er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn prisiau a delir (er enghraifft, chwyddiant prisiau

tai) ac effaith yr economi ehangach ar refeniw treth (megis dirwasgiad). Ar y cyfan, mae'r rhain yn effeithio ar refeniw o dreth dir y dreth stamp a'r dreth trafodiadau tir ar y cyd. Ffactor arall a all newid yr addasiad i'r grant bloc yw newidiadau a wneir i'r trethi rhagflaenol yng nghyllideb llywodraeth y DU ac mewn digwyddiadau cyllidol eraill. Gall effaith newidiadau llywodraeth y DU i drethi gynnwys newid y cyfraddau (a, lle y bo'n berthnasol, y bandiau) sy'n daladwy neu newid y rheolau fel bod rhyddhad newydd ar gael, er enghraifft, neu fel bod rhyddhad a oedd ar gael yn flaenorol wedi cael ei ddiddymu. Yn y sefyllfaoedd hyn, bydd y dreth ragflaenol yn gwneud naill ai:

- ymdrech dreth lai (bydd y refeniw a fyddai wedi cael ei gasglu yn llai am fod y gyfradd dreth wedi'i lleihau neu am fod rhyddhad newydd ar gael i rai trethdalwyr), neu
- ymdrech dreth fwy (bydd y refeniw a fyddai wedi cael ei gasglu yn fwy am fod y gyfradd dreth wedi'i chynyddu neu am nad yw rhyddhad blaenorol ar gael mwyach).

- 2.6 Pan fo cynllun gwariant un flwyddyn ar waith, bydd angen i Lywodraeth Cymru aros cyn cyhoeddi ei chyllideb drafft i gael gwybod faint o gyllid fydd ar gael. Gall Llywodraeth Cymru gyflwyno diweddariadau cyn y pleidleisir ar ei chyllideb derfynol, neu mewn cyllidebau atodol yn ystod y flwyddyn dan sylw. Fel arfer, pleidleisir ar gyllideb Llywodraeth Cymru cyn i Fil Cyllid Llywodraeth y DU gael Cydsyniad Brenhinol, a allai, o bosibl, greu anawsterau os gwneir newidiadau pellach ar y funud olaf i deddfwriaeth trethi'r DU.
- 2.7 Fel arfer, cyhoeddir newidiadau i drethi'r DU fel rhan o gyllidebau llywodraeth y DU. Mae llywodraeth y DU wedi tueddu tuag at gynnal un digwyddiad cyllidol blynyddol yn yr hydref. Cyhoeddwyd datganiad cyllideb mwyaf diweddar y DU ar 30 Hydref 2024. Fodd bynnag, gall nifer ac amseriad digwyddiadau cyllidol y DU bob blwyddyn amrywio o hyd, yn arbennig mewn cyfnod o ansicrwydd ac, mewn blynyddoedd pryd y cynhelir etholiad cyffredinol, nid yw'n anghyffredin i gyllideb gael ei chyhoeddi ar y naill ochr a'r llall i'r etholiad hwnnw.
- 2.8 Nododd canllawiau llywodraeth flaenorol y DU y bydd y rhan fwyaf o bolisiâu treth yn parhau i gael eu datblygu drwy gylch sefydledig, lle y caiff cyhoeddiad polisi adeg y gyllideb ei ddilyn gan ymgynghoriad polisi a chyhoeddi deddfwriaeth ddrafft, gyda'r polisi yn dod yn gyfraith gwlad, o'r diwedd, yn y Bil Cyllid nesaf. Yna, fel arfer, cyhoeddir deddfwriaeth ddrafft yn y gwanwyn/haf ar gyfer ymgynghoriad technegol. Diben hyn yw sicrhau bod Bil Cyllid a gyflwynir yn yr hydref yn cael Cydsyniad Brenhinol cyn dechrau'r flwyddyn dreth ganlynol. Ni ddefnyddiodd cyllideb gyntaf llywodraeth newydd y DU ym mis Hydref 2024 y dull hwnnw, yn rhannol am fod y llywodraeth wedi newid ym mis Gorffennaf 2024, a oedd yn golygu bod y blaenoriaethau bellach yn wahanol i rai'r llywodraeth flaenorol.
- 2.9 Yn ogystal â newidiadau a wnaed mewn cyllidebau, cafwyd hefyd nifer o newidiadau i drethi na chawsant eu rhagflaenu gan ymgynghoriad na deddfwriaeth ddrafft, neu lle roedd yr amserlen yn fyrrach o lawer. Mae

enghreifftiau yn cynnwys mynd i'r afael ag achosion o osgoi trethi, cynyddu cyfraddau, cyflwyno cyfundrefn codi treth newydd, cyflwyno, diwygio neu ddiddymu rhyddhad, ymateb mewn ffordd sy'n wahanol i'r opsiynau a nodwyd mewn ymgynghoriad ac ati¹³. Gellir gwneud newidiadau ar unwaith neu'n gyflym iawn er mwyn atal trethdalwyr rhag rhagflaenu neu ohirio eu trafodiadau er mwyn cael budd o newidiadau i drethi a gyhoeddwyd ymlaen llaw, y gall y naill neu'r llall effeithio ar refeniw'r llywodraeth ac, mewn perthynas â'r trethi trafodiadau tir, ansefydlogi'r farchnad.

- 2.10 Fel y nodwyd eisoes, nid yw amserlen cyllideb llywodraeth y DU yn sefydlog ac, felly, gall yr amserlen ar gyfer cyflwyno Biliau Cyllid amrywio hefyd. Un enghraifft o hyn oedd cyllideb y DU a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2024, sef y diwrnod ar ôl y ddadl derfynol ar Gyllideb Cymru a'r bleidlais i'w chymradwyo. Roedd y Bil Cyllid a gyflwynwyd yn dilyn y datganiad cyllideb yn fyr iawn. Fodd bynnag, cynhwyswyd newidiadau sylweddol i dreth dir y dreth stamp a oedd yn golygu bod y dreth honno yn gwneud ymdrech dreth fwy (a oedd yn golygu bod y grant bloc wedi cael ei leihau a bod llai o arian ar gael i Lywodraeth Cymru). Mae'r ansicrwydd ynglŷn â'r hyn a allai ddigwydd i'r trethi rhagflaenol yn un o gyllidebau'r DU yn golygu ei bod yn anos cynllunio ac ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau a wneir gan lywodraeth y DU, yn arbennig pan fo'r refeniw a gynhyrchir gan y dreth trafodiadau tir yn rhan bwysig o'r ymrwymadau gwariant a wneid drwy gyllideb ddrafft a chyllideb derfynol Cymru.

¹³ Gweler Rhan 4 o [ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru-dogfen-ymgyngori.pdf](#) am rai enghreifftiau manwl.

Adran 3 – Adolygiad o'r dulliau sydd ar gael ar hyn o bryd i Weinidogion Cymru wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru

- 3.1 Ar hyn o bryd, gall Gweinidogion Cymru gynnig newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru, a rheoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pwerau yn y deddfau hynny, gan ddefnyddio sawl dull statudol. Os bydd y Senedd yn cymeradwyo'r newidiadau hynny, bydd y ddeddfwriaeth honno yn dod yn gyfraith gan bennu'r rheolau y mae'n rhaid i drethdalwyr ac ACC eu dilyn.
- 3.2 Dim ond os yw'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r symiau gael eu talu gan drethdalwyr y gellir casglu'r trethi datganoledig. Ni ellir casglu treth drwy ganllawiau, er bod ganllawiau gan ACC yn bwysig i helpu trethdalwyr i ddeall eu rhwymedigaethau. Yn y pen draw, y llysoedd fydd yn penderfynu ar effaith deddfwriaeth os bydd anghydfod rhwng y trethdalwr ac ACC.

Deddfwriaeth Sylfaenol

- 3.3 Caiff Llywodraeth Cymru gyflwyno Bil i'r Senedd. Ceir nifer o brosesau a nodir yn Rheolau Sefydlog y Senedd y mae'n rhaid eu dilyn er mwyn i Fil fynd drwy'r cyfnodau perthnasol a chael ei gymeradwyo gan y Senedd a chael Cydsyniad Brenhinol (pan all ddod i rym ar unwaith neu gael ei gyflwyno fesul cam gyda rhannau neu adrannau gwahanol yn cychwyn ar ddyddiadau gwahanol ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol.
- 3.4 Mae tair proses ar gael ar gyfer hynt Biliau a gyflwynir gerbron y Senedd, sef: 'safonol', 'brys', a 'charlam'.
- 3.5 Fel rheol, gall y broses 'safonol' ar gyfer datblygu a phasio deddfwriaeth sylfaenol yng Nghymru gymryd tua 6-9 mis yn dibynnu ar gwmpas y ddeddfwriaeth a deddfwriaeth sylfaenol arall sydd gerbron y Senedd.
- 3.6 Neilltuir o leiaf bedair wythnos ar gyfer y cyfnod penderfynu a'r cyfnod hysbysu, sef cyfanswm o wyth wythnos.

3.7 Tabl 1: Cyfnodau Bil¹⁴

Cyfnod	Gweithgaredd
Penderfyniad y Llywydd	Mae'r Llywydd yn penderfynu a yw'r Bil o fewn cymhwysedd y Senedd.
Cyflwyniad	Cyflwyno'r Bil a'i gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg (Datganiadau ysgrifenedig a llafar yn cael eu gwneud gan y gweinidog arweiniol)
Cyfnod 1	Mae un neu fwy o Bwyllgorau'r Senedd yn ystyried y Bil
Egwyddorion Cyffredinol	Gofyn i'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil (os cytunir arnynt bydd y Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2, ond os na chytunir arnynt bydd y Bil yn methu)
Cyfnod 2	Ystyriaeth fanwl gan un o Bwyllgorau'r Senedd (gellir cyflwyno gwelliannau i'r Bil yn ystod y Cyfnod hwn)
Cyfnod 3	Ystyriaeth fanwl gan y Cyfarfod Llawn (gellir cyflwyno gwelliannau i'r Bil yn ystod y Cyfnod hwn)
Cyfnod 4	Gofyn i'r Senedd basio'r Bil fel y'i diwygiwyd (os cytunir ar hyn, bydd y Bil yn symud ymlaen i gael Cydsyniad Brenhinol, ond os na chytunir ar hyn bydd y Bil yn cael ei wrthod)
Hysbysu	Gall y Cwnsler Cyffredinol neu'r Twrnai Cyffredinol gyfeirio'r cwestiwn a yw'r Bil, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo, yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, i'r Goruchaf Lys am benderfyniad a/neu caiff Ysgrifennydd Gwladol Cymru wneud gorchymyn yn gwahardd y Bil rhag cael ei anfon i gael Cydsyniad Brenhinol.
Cydsyniad Brenhinol	Mae'r Brenin yn cytuno i wneud y Bil yn Ddeddf a gosodir y Sêl Gymreig arno

¹⁴ [Cyfnodau Biliau Cyhoeddus](#)

3.8 Mae hynt Deddf Treth Trafodiadau a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 drwy broses graffu'r Senedd i gael Cydsyniad Brenhinol yn enghraifft dda o'r weithdrefn ddeddfwriaethol. Aeth drwy'r Senedd mewn ychydig dros 29 wythnos gan gael Cydsyniad Brenhinol tua 36 wythnos ar ôl iddo gael ei gyflwyno:

- Darparwyd i'r Llywydd er mwyn iddi wneud penderfyniad
- Cyflwynwyd – 12 Medi 2016
- Cyfnod 1 – cwblhawyd 10 Ionawr 2017
- Cyfnod 2 – cwblhawyd 16 Chwefror 2017
- Cyfnod 3 – 28 Mawrth 2017
- Cyfnod 4 – 4 Ebrill 2017
- Cydsyniad Brenhinol – 24 Mai 2017.

Biliau Brys

3.9 Anaml y defnyddir Biliau Brys yn Senedd y DU nac mewn deddfwriaethau datganoledig eraill. Yng Nghymru, Bil Brys yw Bil Llywodraeth Cymru y mae angen ei ddeddfu'n gyflymach nag a ganiateir gan broses ddeddfwriaethol arferol y Senedd. Ni ddarperir diffiniad o Fil Brys yn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 nac yn Rheolau Sefydlog y Senedd. Fodd bynnag, mae Rheol Sefydlog 26.95 yn datgan: "Os yw'n ymddangos i aelod o'r llywodraeth fod angen Bil Brys, caiff gynnig bod Bil llywodraeth, a gyflwynir yn y Senedd, yn cael ei drin fel Bil Brys llywodraeth."

3.10 Mae Bil Brys yn galluogi darpariaethau cyfreithiol brys i gael eu deddfu'n gyflym. Mae Rheolau Sefydlog y Senedd yn nodi fersiwn symlach o brosesau deddfwriaethol arferol y Senedd er mwyn osgoi unrhyw oedi. Mae'r ffordd y bydd y Senedd yn ystyried Bil Brys yn dilyn yn fras Gyfnodau arferol Bil ond gyda rhai newidiadau arwyddocaol er mwyn eu cyflymu.

3.11 Fel enghraifft o Fil brys, cafodd Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018 Gydsyniad Brenhinol 13 wythnos ar ôl iddi gael iddi gael ei chyflwyno, gyda dim ond pythefnos rhwng cyflwyno'r Bil a'i gymeradwyo gan y Senedd. Mae'r dyddiadau perthnasol fel a ganlyn:

- Cyflwynwyd – 7 Mawrth 2018
- Cyfnod 1 – 13 Mawrth 2018
- Cyfnod 2 – 20 Mawrth 2018
- Cyfnod 3 a 4 – 21 Mawrth 2018
- Cydsyniad Brenhinol – 6 Mehefin 2018.

Biliau Carlam

- 3.12 Mae'r term 'gosod ar lwybr carlam' yng Nghymru yn disgrifio'r hyn sy'n digwydd i Fil sy'n dilyn y broses deddfwriaethol bedwar cyfnod arferol, ond yn gwneud hynny mewn cyn lleied o amser â phosibl. Fel arfer, cyflwynir biliau carlam a biliau brys mewn ymateb i ddigwyddiadau neu ddyfarniadau llys penodol. Fel arfer ni chyfeirir Biliau carlam at un o Bwyllgorau'r Senedd er mwyn iddo ei ystyried yn fanwl. Yn lle hynny, bydd Biliau carlam yn mynd yn syth i Gyfnod 1 a'r ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol ar ôl iddynt gael eu cyflwyno (yn amodol ar gytundeb Pwyllgor Busnes y Senedd).
- 3.13 Nid Biliau Brys yw Biliau Carlam, ac nid yw'r un gofynion na gwahaniaethau yn y Rheolau Sefydlog yn gymwys iddynt. Mae Bil ar lwybr carlam yn mynd drwy'r Cyfnodau mor gyflym ag y bo modd, ond gwneir hynny yn unol â'r Rheolau Sefydlog ar gyfer Bil arferol. Felly, mater o reoli'r amserlen yn hytrach na gweithdrefn ffurfiol yw gosod deddfwriaeth ar lwybr carlam. Tra bo Bil fel arfer yn cymryd rhwng 6 ac 9 mis i gael Cydsyniad Brenhinol, gallai Bil carlam gymryd tua 3 mis.
- 3.14 Fel yn achos Biliau Brys, prin yw'r defnydd a wneir o Filiau carlam. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dau Fil o'r fath, y cafodd y ddau ohonynt eu pasio gan y Senedd a dod yn gyfraith, sef: Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 a Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014.

Deddfu yng Nghymru, adroddiad gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (y 4edd Senedd)

- 3.15 Ystyriwyd y ffaith nad oes digon o amser i graffu'n fanwl ar filiau brys na biliau carlam yn yr adroddiad Deddfu yng Nghymru gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn y 4ydd Cynulliad¹⁵. Ystyriodd yr ymchwiliad y broses graffu fyrrach a gynhaliwyd ar dri o Filiau Llywodraeth Cymru:
- Y Bil Sector Amaethyddol (Cymru) – yn ddarostyngedig i'r weithdrefn frys o dan y Rheolau Sefydlog
 - Y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) – a gafodd osgoi Cyfnod 1 y broses graffu
 - Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) – a gafodd osgoi Cyfnod 1 y broses graffu
- 3.16 Nododd yr ymchwiliad fod anfanteision posibl yn gysylltiedig â gweithdrefnau brys a rhoi deddfwriaeth ar y llwybr carlam, gan gynnwys;
- colli'r cyfle i randdeiliaid nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â nhw roi unrhyw dystiolaeth ffurfiol i'r Senedd ynghylch y cynigion;
 - mewn sefyllfaoedd lle mae cytundeb cyffredinol bod angen mynd i'r afael â mater, colli cyfle i brofi gyda'r holl randdeiliaid ai drafftio'r Bil yw'r ateb gorau posibl;

¹⁵ Deddfu yng Nghymru, adroddiad gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn y 4edd Senedd: [cr-ld10379-w.pdf](#)

- y gall Aelodau'r Cynulliad fod yn anghyfarwydd â chynnwys Bil, a allai arwain at lai o graffu deallus yng Nghyfnodau 2 a 3.
- 3.17 Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad nad rhywbeth i'w gymryd yn ysgafn yw penderfyniad i fabwysiadu proses graffu fyrrach a chytunodd â'r Llywydd, a ddywedodd: "Mae'n bwysig bod y risgiau i enw da a goblygiadau o ran adnoddau o ran defnyddio gweithdrefnau carlam a gweithdrefnau brys, yn cael eu hystyried yn llawn, yn enwedig os canfyddir yn ddiweddarach bod y rhain yn amhriodol."

Is-ddeddfwriaeth

- 3.18 Gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio nifer o bwerau gwneud rheoliadau i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru fel y nodir yn Neddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi 12 (Cymru) 2017 a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016. Mae'r rheoliadau wedi'u cyfyngu i feysydd penodol o Ddeddfau Trethi Cymru a chreffir arnynt ac, yn y rhan fwyaf o achosion, pleidleisir arnynt yn y Senedd ar ôl i'r rheoliadau gael eu gosod ger ei bron ar ffurf ddrafft (y weithdrefn 'gadarnhaol ddrafft'). Yn rhannol, roedd darpariaeth y pwerau hyn i wneud rheoliadau yn gysylltiedig â meysydd lle y gallai newid i reolau'r DU effeithio ar drethi datganoledig yng Nghymru, neu lle roedd yn hysbys y gallai fersiwn y DU gael ei newid¹⁶, lle roedd deddfwriaeth yn gymharol newydd¹⁷, neu lle roedd pwysau hirsefydledig dros newid.
- 3.19 Ers i'r dreth gwarediadau tirlenwi gael ei chymhwyso gyntaf yng Nghymru ar 1 Ebrill 2018, mae naw set o reoliadau wedi'u gwneud, sef: dwy i wella materion gweithredol a nodwyd o ran y dreth a oedd yn ymwneud â rhyddhad adfer safle a rhyddhad chwareli, a dwy i gyflwyno newidiadau i'r cyfraddau a oedd yn daladwy.
- 3.20 Yn achos y dreth trafodiadau tir, mae 10 set o reoliadau wedi'u gwneud ers i'r dreth gael ei chymhwyso gyntaf yng Nghymru, sef pump i gyflwyno neu ddiwygio rhyddhadau (gan gynnwys cyflwyno'r rhyddhad ar gyfer safleoedd treth arbennig ar gyfer porthladdoedd rhydd yng Nghymru), diwygio'r rheolau sy'n ymwneud â thrafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch ac er mwyn newid y ffigur perthnasol ar gyfer rhent, a phump i wneud newidiadau i'r cyfraddau a'r bandiau (yr oedd dwy ohonynt yn ymwneud â'r gostyngiad dros dro yn y dreth yn ystod pandemig Covid-19 a ddarparwyd rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Mehefin 2021).
- 3.21 Ar gyfer Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, mae dwy set o reoliadau wedi'u gwneud ers i'r ddwy dreth ddatganoledig gael eu cymhwyso gyntaf ar 1 Ebrill 2018, sef: un i gywiro gwall rhifo yn y Ddeddf a'r llall i ddiweddarau adrannau o Ddeddf Enillion Troseddau 2002 o ganlyniad i gyflwyno ein trethi datganoledig.

¹⁶ Gweler, er enghraifft, gwaith y Swyddfa Symleiddio Treth ar drethu partneriaethau – [Review of partnerships: update and call for evidence](#)

¹⁷ Er enghraifft, y ddeddfwriaeth ynglŷn â chyfraddau preswyl uwch a gyflwynwyd yn nhreth dir y dreth stamp ym mis Ebrill 2016, gwta ddwy flynedd cyn i'r dreth trafodiadau tir ddod i rym yng Nghymru.

- 3.22 Fodd bynnag, ceir rhannau eraill o'r ddeddfwriaeth lle nad ystyriwyd ei bod yn briodol nac yn angenrheidiol cymryd pwerau gwneud rheoliadau; er enghraifft, yn achos y dreth trafodiadau tir, y darpariaethau sy'n ymwneud â thrafodiadau cysylltiedig a chyflawni'n sylweddol. Un maes allweddol yw'r darpariaethau sy'n ymwneud â chyfrifo treth. Er enghraifft, pe bai Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cyflwyno gordal newydd (yn debyg i'r rheolau ynglŷn â chodi cyfraddau sydd 5 y cant yn uwch ar eiddo preswyl ychwanegol), mae'n annhebygol y gellid cyflawni hyn yn llawn drwy'r gyfres bresennol o bwerau gwneud rheoliadau.
- 3.23 Rhagwelwyd y byddai angen gwneud newidiadau i'r cyfraddau a'r bandiau ar gyfer trethi datganoledig Cymru yn ôl pob tebyg ac, felly, cyflwynodd y Senedd bwerau pwrpasol sy'n ei gwneud yn bosibl i'r newidiadau hynny gael eu gwneud drwy reoliadau. Gan gofio am y risg benodol o ragflaenu sy'n gysylltiedig â newidiadau i gyfraddau a bandiau, mae rheoliadau a wneir o dan y pwerau hynny yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol dros dro. Mae hyn yn golygu y gall newidiadau i gyfraddau a bandiau treth gael effaith gyfreithiol dros dro, ond ar unwaith, o'r dyddiad y caiff y rheoliadau eu gwneud gan Weinidogion Cymru. Ar yr amod y caiff y rheoliadau eu cymeradwyo ar ôl hynny gan y Senedd o fewn 28 diwrnod eistedd, bydd y rheoliadau wedyn yn cael effaith barhaol. Mae'r defnydd o'r weithdrefn gadarnhaol dros dro yn ymwneud yn benodol â'r pŵer i amrywio cyfraddau a bandiau treth – mae gweddill y gyfres o bwerau gwneud rheoliadau yn Neddffau Trethi Cymru yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau cadarnhaol neu negyddol drafft.
- 3.24 Pasiodd y Senedd Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 sy'n rhoi pŵer newydd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd drwy'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft neu, lle y bo'n briodol, y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'). O dan amgylchiadau penodedig, gellir gwneud y rheoliadau yn ôl-weithredol. Dim ond er mwyn ymdrin â'r pedair sefyllfa hyn y gellir defnyddio'r pŵer–
- (a) sicrhau na chaiff treth gwarediadau tirlenwi na threth trafodiadau tir eu gosod lle byddai gwneud hynny yn anghydnaws ag unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol;
 - (b) diogelu rhag achosion o osgoi trethi mewn perthynas â threth gwarediadau tirlenwi neu dreth trafodiadau tir;
 - (c) ymateb i newid i dreth ragflaenol sy'n effeithio, neu a allai effeithio, ar y symiau a delir i Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 118(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (i bob pwrpas dyma'r arian a geir drwy'r grant bloc ar ôl unrhyw addasiadau perthnasol i'r grant bloc);
 - (d) ymateb i benderfyniad llys neu dribiwnlys sy'n effeithio ar weithredu unrhyw rai o Ddeddfau Trethi Cymru neu reoliadau a wneir o dan unrhyw un o'r Deddfau hynny, neu a all effeithio ar hynny.
- 3.25 Nid yw Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'r pŵer a ddarperir gan Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 eto. Fodd bynnag, pe bai'r penderfyniad wedi cael ei wneud, ar ôl i lywodraeth flaenorol y DU ddiddymu'r rhyddhad cyfatebol yn nhreth dir y dreth stamp, i ddiddymu rhyddhad rhag y dreth trafodiadau tir ar gyfer caffaeliadau yn cynnwys sawl annedd ar yr un

pryd, byddai wedi bod yn bosibl i'r pŵer gael ei ddefnyddio i gyd-fynd â'r un dyddiad y diddymwyd y rhyddhad rhag treth dir y dreth stamp (1 Mehefin 2024). Byddai'r pŵer wedi galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y newid drwy reoliadau cadarnhaol 'gwnaed' gan na fyddai wedi bod digon o amser (gan ddarparu ar gyfer ymgynghoriad Llywodraeth Cymru¹⁸), i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn Neddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ychwanegu, diwygio na dileu rhyddhadau i gyd-fynd â dyddiad diddymu llywodraeth y DU.

- 3.26 Y cynnig cychwynnol yr ymgynghorodd Gweinidogion Cymru arno¹⁹ yn 2020 oedd ar gyfer pŵer ehangach i ymdrin ag unrhyw newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru ond y byddai'n rhaid i'r pŵer hwnnw gael ei gymeradwyo gan y Senedd, sef "clo y Senedd" fel y'i gelwir. Yn dilyn yr ymgynghoriad, penderfynwyd y dylid cyfyngu ar y sefyllfaoedd lle y gellid defnyddio'r pŵer ond dileu clo arfaethedig y Senedd.
- 3.27 Bwriad clo y Senedd oedd darparu cymeradwyaeth y Senedd i ddefnyddio'r pŵer a gwneud y rheoliadau, gyda'r Senedd wedyn yn ystyried effaith y rheoliadau ac yn pleidleisio i gymeradwyo neu wrthod y rheoliadau hynny yn ddiweddarach. Byddai hyn wedi darparu math tebyg o benderfyniadau i'r rhai a wneir gan ddefnyddio'r pwerau yn Neddf Casglu Trethi Dros Dro 1968 a wnaed gan Senedd y DU i roi newidiadau ar waith ar unwaith (neu eu rhoi ar waith cyn i'r Bil Cyllid dilynol gael Cydsyniad Brenhinol) – gweler paragraff 4.2.

¹⁸Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 8 Ebrill 2024 a daeth i ben ar 19 Mai 2024, sy'n golygu mai dim ond 11 diwrnod oedd rhwng yr adeg honno a'r dyddiad y daeth treth dir y dreth stamp i rym.

¹⁹[ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru-dogfen-ymgynghori.pdf](#)

Adran 4 – Y dulliau a ddefnyddir gan Senedd y DU a Senedd yr Alban i wneud newidiadau i'w deddfau trethi

Deddfwriaeth Sylfaenol y DU

- 4.1 Biliau Cyllid yw'r prif gyfrwng deddfwriaethol i ddeddfwriaeth treth gael ei deddfu gan Lywodraeth y DU. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â gosod a newid trethi er mwyn codi arian i gyllido llywodraeth ganolog. Gall y Bil Cyllid hefyd gyflwyno cyfundrefnau treth newydd, megis y dreth flynyddol ar anheddau wedi'u hamgáu yn Neddf Cyllid 2013. Proses flynyddol ydyw, yn rhannol am fod treth incwm a threth gorfforaeth yn drethi blynyddol y mae'n rhaid eu hadnewyddu drwy ddeddfwriaeth sylfaenol bob blwyddyn, ond mae hefyd yn adlewyrchu maint a rheoleidd-dra'r newid sydd angen ei wneud i drethi'r DU. Gall Biliau Cyllid gynnwys cannoedd o dudalennau o ddeddfwriaeth.
- 4.2 Bydd y Bil Cyllid yn cynnwys mesurau y bwriedir iddynt ddod i rym ar y dyddiad y caiff Gydsyniad Brenhinol neu'n ddiweddarach, neu sydd wedi cael eu rhoi ar waith dros dro, neu ar ddyddiad cyn iddo gael Cydsyniad Brenhinol, drwy benderfyniadau a wnaed o dan y pwerau yn Neddf Casglu Trethi Dros Dro 1968. Mae'n werth nodi bod y Bil Cyllid yn annodweddiadol o brosesau deddfwriaethol Senedd y DU mewn sawl ffordd. Fel arfer, mae'r Bil Cyllid yn cymryd tua 4 mis i fynd drwy Senedd y DU. Mae'r amserlen hon yn eithaf byr o gymharu â'r rhan fwyaf o Filiau yn Senedd y DU ac, oherwydd hyn, anaml iawn y caiff sesiynau tystiolaeth eu defnyddio gan y pwyllgor perthnasol i gymryd tystiolaeth allanol, os o gwbl. Yn amlach, darperir tystiolaeth o effaith darpariaethau'r Bil Cyllid yn ysgrifenedig i adrannau perthnasol y llywodraeth ac aelodau Pwyllgor Biliau Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin.
- 4.3 Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth y DU yn gwneud y rhan fwyaf o'i newidiadau i ddeddfwriaeth trethi drwy'r Bil Cyllid. Bydd y newidiadau hynny naill ai'n dod i rym rywbryd ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol, neu, o dan amgylchiadau penodol, efallai y byddant eisoes wedi dod i rym dros dro drwy benderfyniadau. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i gynigion ar gyfer newid trethi a pharhau â threthi, megis ailosod treth incwm bob blwyddyn, gael effaith dros dro tra'n aros i'r ddeddfwriaeth sylfaenol angenrheidiol gael Cydsyniad Brenhinol. Mae hefyd yn bosibl cyflwyno newidiadau i ddeddfwriaeth trethi y tu allan i gylch cyllidebol gan ddefnyddio penderfyniad o dan y Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro²⁰, ond dim ond os cyhoeddwyd deddfwriaeth sylfaenol ddrafft o fewn y cyfnod amser statudol er mwyn rhoi'r newid ar waith yn barhaol.
- 4.4 Yn 2009, nododd Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi y rhesymau pam roedd Biliau wedi cael eu rhoi ar y llwybr carlam yn Senedd y DU. Roedd y rhain yn cynnwys:
 - a) unioni anghysondeb, amryfusedd, gwall neu ansicrwydd a ddaeth i'r amlwg mewn deddfwriaeth;

²⁰ Gweler paragraffau 4.6 i 4.8 isod

- b) ymateb i effeithiau dyfarniad llys;
- c) sicrhau bod deddfwriaeth mewn grym mewn da bryd ar gyfer digwyddiad sydd ar fin cael ei gynnal;
- d) delio ag argyfwng economaidd;
- e) newid y terfynau ar fenthyciadau y caiff awdurdod cyhoeddus eu cymryd neu eu rhoi, neu faterion cyllido eraill;
- f) delio ag argyfwng mewn carchardai o ganlyniad i weithredu diwydiannol;
- g) ymateb i gytundebau rhwngwladol;
- h) **gweithredu cyhoeddiadau'r Trysorlys yn y Gyllideb neu ddatganiad yr hydref.**

4.5 Mae 'gweithredu cyhoeddiadau'r Trysorlys yn y Gyllideb neu ddatganiad yr hydref' yn darparu i'r Bil Cyllid blynyddol ddilyn llwybr carlam drwy Senedd y DU. Prin yw'r enghreifftiau lle mae Llywodraeth y DU wedi defnyddio proses Bil Carlam neu Fil Brys y tu allan i'r Biliau Cyllid blynyddol i wneud newidiadau polisi i ddeddfwriaeth trethi. Isod ceir enghraifft o'r amseriadau perthnasol mewn perthynas â chyllideb Hydref 2021 a hynt y Bil Cyllid cyfatebol drwy'r Senedd yw Deddf Cyllid 2022 (oni nodir yn wahanol mae a wnelo'r digwyddiadau â Thŷ'r Cyffredin):

- | | |
|--|-----------------------------|
| • araith y gyllideb | - 27 Hydref 2021 |
| • penderfyniadau ar y gyllideb | - 27 Hydref 2021 |
| • Cyflwynwyd y Bil Cyllid | - 2 Tachwedd 2021 |
| • Cyfnod Pwyllgor | - 14 Rhagfyr 2021 (am a pm) |
| | - 5 Ionawr 2022 (pm a nos) |
| | - 11 Ionawr 2022 |
| • Cyfnod Adrodd | - 2 Chwefror 2022 |
| • 3 ^{ydd} Darlleniad | - 2 Chwefror 2022 |
| • Darlleniad 1 ^{af} Tŷ'r Arglwyddi | - 2 Chwefror 2022 |
| • 3 ^{ydd} Darlleniad Tŷ'r Arglwyddi | - 22 Chwefror 2022 |
| • Cydsyniad Brenhinol | - 24 Chwefror 2022 |

4.6 Mae cyflwyno'r 'SDLT holiday' ym mis Gorffennaf 2020 yn enghraifft ddiweddar o'r defnydd o benderfyniad o dan Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro 1968, y tu allan i gyllideb a Bil Cyllid. Ar 8 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd y Canghellor y byddai'r trothwy cychwynnol ar gyfer treth dir y dreth stamp yn cynyddu o £125,000 i £500,000, a oedd yn golygu nad oedd unrhyw dreth yn daladwy ar eiddo a oedd yn destun prif gyfraddau preswyl treth dir y dreth stamp ar eiddo a oedd yn costio hyd at £500,000. Ynghyd â'r cyhoeddiad ar 8 Gorffennaf 2020, cafwyd penderfyniad i weithredu'r newid hwnnw ar unwaith. Cyflwynwyd Bil Treth Dir y Dreth Stamp (Rhyddhad Dros Dro) i wneud y newidiadau yn barhaol ar 13 Gorffennaf ac erbyn 17 Gorffennaf roedd wedi mynd drwy bob un o gyfnodau Senedd y DU, gan gael Cydsyniad Brenhinol ar 22 Gorffennaf 2020²¹.

²¹ [Stamp Duty Land Tax \(Temporary Relief\) Act 2020 Stages - Parliamentary Bills - UK Parliament](#)

- 4.7 Yn ogystal ag unrhyw benderfyniadau angenrheidiol o dan y Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro, gosododd Llywodraeth y DU benderfyniadau 'ffyrdd a moddau' gerbron Senedd y DU hefyd sy'n disgrifio (fel arfer mewn termau cyffredinol) yr hyn a gaiff ei gynnwys yn y Bil Cyllid. Fel arfer, caiff rhai benderfyniadau o dan y Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro eu cymeradwyo ar ddiwrnod y gyllideb sy'n golygu y gallant ddod i rym cyn i'r ddadl ar y gyllideb ddod i ben. Ond rhaid i'r benderfyniadau hynny a phob benderfyniad ffyrdd a moddau arall gael eu cymeradwyo hefyd ar ddiwedd y ddadl ar y gyllideb (neu ddiwedd perthnasol y ddadl ar gyfer digwyddiadau cyllidol eraill). Yn achos dadleuon ar gyllidebau, fel arfer mae hyn ychydig ddiwrnodau ar ôl araith y gyllideb.
- 4.8 Mae'r benderfyniadau ffyrdd a moddau yn pennu cwmpas y Bil Cyllid gan sicrhau bod yn rhaid i unrhyw welliant i'r Bil yn cael ei gwmpasu gan un neu fwy o'r benderfyniadau. At hynny, ni all unrhyw un ac eithrio Llywodraeth y DU gynnig gwelliant a fydd yn arwain at godi tâl (hyd yn oed os ymddengys, fel arall, ei fod yn cael ei gwmpasu gan eiriau cyffredinol y benderfyniad). Er enghraifft, benderfyniad 35 ar 30 Hydref 2024 (a oedd yn benderfyniad o dan y Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro hefyd) a gynyddodd y cyfraddau preswyl uwch ar gyfer anheddau ychwanegol yn nhreth dir y dreth stamp un pwynt canrannol, byddai gwelliant yn bosibl a fyddai'n rhoi canran is yn lle'r ffigur yn y benderfyniadau, ond nid un a fyddai'n golygu bod cyfraddau treth dir y dreth stamp yn uwch na'r hyn a nodir yn y benderfyniad ffyrdd a moddau (a'r benderfyniad o dan y Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro). Mae'r mecanwaith benderfyniadau yn sicrhau nad yw gosod Bil Cyllid gerbron Senedd y DU yn golygu y gallai cod treth llywodraeth y DU yn ei gyfanrwydd fod yn destun gwelliannau a fyddai'n cael eu cyflwyno yn ystod y broses graffu.

Is-ddeddfwriaeth y DU

- 4.9 Mae llywodraeth y DU wedi cael nifer o bwerau gwneud rheoliadau mewn perthynas â threthi'r DU gan Senedd y DU. Mae'r pŵer yn adran 113 o Ddeddf Cyllid 2021 yn darparu i lywodraeth y DU ddynodi ardaloedd o'r DU a fydd yn elwa ar y cymhellion treth²². Mae'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol fel y byddant yn dod i rym ar y dyddiad a nodir yn y rheoliadau ac, oni fydd unrhyw Seneddwr yn gofyn iddynt fod yn destun pleidlais Seneddol, o fewn nifer penodedig o ddiwrnodau iddynt gael eu gwneud y byddant yn aros fel cyfraith. Nid yw'r rheoliadau hyn yn diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol.
- 4.10 Mae enghreifftiau o bwerau gwneud rheoliadau yn brinnach yn nhrethi'r DU, efallai oherwydd presenoldeb cylch Bil Cyllid blyneddol. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau, gan gynnwys rhai syn cynyddu rhwymedigaethau treth; megis adran 404b o Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003²³ sy'n darparu y gall swm y trothwy (sef £30,000 ar hyn o bryd) ar gyfer terfynu

²² Lwfansau ar gyfer peiriannau a pheirianwaith, lwfansau ar gyfer strwythurau ac adeiladau, ac, ar gyfer Lloegr yn unig, rhyddhad rhag treth dir y dreth stamp.

²³ [Deddf Treth Incwm \(Enillion a Phensiynau\) 2003](#)

buddion a thaliadau cyflogaeth nad yw'n drethadwy, gael ei gynyddu neu ei leihau gan reoliadau. Lle mae'r rheoliadau yn lleihau swm y trothwy (hynny yw cynyddu'r dreth sy'n daladwy), dim ond rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft a all wneud y newidiadau. Darperir pŵer gwneud rheoliadau llawer ehangach arall yn adrannau 465A a 701A o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2009 ac mae'n darparu pŵer gwneud rheoliadau eang ei gwmpas i newid y rheolau sy'n ymwneud â threthu deilliadau a chydberthnasau benthyca er mwyn darparu ar gyfer newidiadau helaeth i safonau cyfrifyddu a wneir gan gorff cyfrifyddiaeth²⁴.

- 4.11 Roedd y dreth pecynnau plastig a gyflwynwyd yn Neddf Cyllid 2021 yn cynnwys nifer o bwerau gwneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'²⁵. Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Trysorlys EF i newid rhai o'r diffiniadau sylfaenol o drethu gan gynnwys ystyr "packaging component" (adran 48²⁶), ystyr "plastic" a "recycled plastic" (adran 49²⁷) a chreu esemptiadau rhag talu'r dreth pecynnau plastig (adran 52²⁸).

Adran 109 o Ddeddf Cyllid 2003

- 4.12 Mae adran 109(1) o Ddeddf Cyllid 2003²⁹ yn rhoi pŵer cyffredinol i Weinidogion Trysorlys EF wneud rheoliadau er mwyn amrywio deddfwriaeth ynglŷn â threth dir y dreth stamp, ac eithrio cyfraddau a throthwyon: "*The Treasury may if they consider it expedient in the public interest make provision by regulations for the variation of this Part in its application to land transactions of any description*".
- 4.13 Bydd rheoliadau o'r fath yn diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n llywodraethu cyfundrefn treth dir y dreth stamp ac maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'. Rhaid i'r rheoliadau gael eu cymeradwyo gan Dŷ'r Cyffredin o fewn 28 diwrnod eistedd ac na allant gael effaith am fwy na 18 mis, sy'n golygu bod y newidiadau yn aml yn cael eu hymgorffori yn y Bil Cyllid nesaf. Os na fydd Tŷ'r Cyffredin yn cymeradwyo'r rheoliadau o fewn 28 diwrnod eistedd, bydd y newidiadau yn peidio â chael effaith ar yr 28^{ain} diwrnod neu pan gânt eu gwrthod drwy bleidlais yn Nhŷ'r Cyffredin os bydd hynny'n digwydd ynghynt.
- 4.14 Yn ymarferol, anaml y mae Llywodraeth y DU wedi defnyddio'r pŵer hwn am fod y rhan fwyaf o newidiadau i dreth dir y dreth stamp yn cael eu gwneud drwy Filiau Cyllid. Cafwyd yr enghraifft fwyaf nodedig ym mis Rhagfyr 2006 pan gafodd ei ddefnyddio i ddiwygio Deddf Cyllid 2003 er mwyn mynd i'r afael â chynlluniau i osgoi talu treth dir y dreth stamp, drwy gyflwyno Adran 75A o Ddeddf Cyllid 2003 (a gwneud diwygiadau i'r rheolau ynglŷn â

²⁴ Y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol neu'r Bwrdd Safonau Cyfrifyddu, neu gorff olynol i'r naill Fwrdd neu'r llall.

²⁵ Mae'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' yn ei gwneud yn bosibl i newidiadau gael eu rhoi mewn grym ar fyr rybudd gyda'r rheoliadau yn diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol ar yr amod y caiff y rheoliadau hynny eu cymeradwyo gan Senedd y DU o fewn 28 diwrnod – gweler adran 84(8) o [Ddeddf Cyllid 2021](#)

²⁶ [Deddf Cyllid 2021](#)

²⁷ [Deddf Cyllid 2021](#)

²⁸ [Deddf Cyllid 2021](#)

²⁹ [Deddf Cyllid 2003](#)

phartneriaethau)³⁰. Fe'i defnyddiwyd ddwywaith hefyd yn 2003 mewn perthynas â chyflwyno treth dir y dreth stamp.

Gweithdrefnau 'eithriadol' y Du

- 4.15 Os bydd Llywodraeth y DU am ymateb i weithgarwch osgoi y tu allan i'r cyfnod pan fo Bil Cyllid gerbron Senedd y DU, yna gellir gwneud datganiad cyhoeddus a chyhoeddir deddfwriaeth a gaiff ei chynnwys yn y bil cyllid nesaf³¹.
- 4.16 Er enghraifft, cyhoeddodd llywodraeth y DU ar 21 Rhagfyr 2012 y byddai'n cau cynllun osgoi "which was being marketed as a way for companies to artificially reduce their corporation tax bills" ar unwaith³². Cyhoeddwyd deddfwriaeth ddrafft ar yr un pryd a chyhoeddwyd y byddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei chynnwys ym Mil Cyllid 2013 (a gyhoeddwyd ar ôl y gyllideb ar 20 Mawrth 2013³³) a'i chymhwyso'n ôl-weithredol (gweler adran 78 o Ddeddf Cyllid 2013). Cafodd Bil Cyllid 2013 Gydsyniad Brenhinol ar 17 Gorffennaf 2013.

Deddfwriaeth yr Alban

- 4.17 Mae Senedd yr Alban a Llywodraeth yr Alban wedi defnyddio deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth i gyflwyno trethi datganoledig yr Alban neu wneud newidiadau i'r cyfreithiau sy'n llywodraethu'r trethi hyn. Mae hyn wedi cynnwys Deddfau sy'n ymwneud â chyflwyno trethi newydd neu elfennau newydd sylweddol o drethi ac is-ddeddfwriaeth bresennol er mwyn darparu ar gyfer newidiadau i'r trethi datganoledig presennol. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, is-ddeddfwriaeth i gyflwyno rhyddhadau newydd a phennu cyfraddau a bandiau treth.

Deddfwriaeth Sylfaenol yr Alban

- 4.18 Defnyddir Deddfau treth-benodol i ddeddfu ar gyfer trethi cenedlaethol a lleol newydd, gyda darpariaethau pellach yn cael eu cyflwyno wedyn drwy is-ddeddfwriaeth. Mae Deddfau perthnasol yn cynnwys:
- Deddf Treth Dirlenwi (yr Alban) 2014,
 - Deddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau 2013,
 - Deddf Revenue Scotland a Phwerau Trethu 2014,
 - Air Departure Tax (Scotland) Act 2017,
 - Aggregates Tax and Devolved Taxes Administration (Scotland) Act 2024 (Rhan 1)
 - Deddf Ardoll Ymwelwyr (yr Alban) 2024,

³⁰ [The Stamp Duty Land Tax \(Variation of the Finance Act 2003\) Regulations 2006](#)

³¹ [Tackling tax avoidance](#) tudalen 19

³² [Government closes tax avoidance scam - GOV.UK](#)

³³ [Deddf Cyllid 2013](#)

- 4.19 Mae Biliau eraill wedi'u defnyddio i wneud newidiadau i drethi datganoledig yr Alban ac mae'r *Land and Buildings Transaction Tax (LBTT) Additional Dwelling Supplement (ADS)* yn 2016 yn enghraifft dda i ddangos dull o ymateb yn gyflym i newidiadau a wneir gan lywodraeth y DU i dreth ragflaenol.
- 4.20 Cytunwyd ar amserlen garlam â Senedd yr Alban ar gyfer y Bil perthnasol (Bil Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (Diwygio) yr Alban 2016), er mwyn sicrhau y gallai'r broses o gyflwyno'r ADS ddilyn yr un amserlen ag a gynlluniwyd gan lywodraeth y DU ar gyfer cyflwyno cyfraddau uwch tebyg treth dir y dreth stamp ar gyfer y gyfundrefn anheddau ychwanegol (HRAD), ac ystyried diddymiad Senedd y DU cyn etholiadau Senedd yr Alban yn 2016. Roedd hyn yn golygu y gallai'r ADS gael ei gyflwyno yn weithredol o 1 Ebrill 2016, ar yr un pryd â chyfundrefn anheddau ychwanegol treth dir y dreth stamp. Roedd cyfnodau allweddol ar gyfer hynt y Bil drwy Senedd yr Alban fel a ganlyn:
- Cyflwynwyd ar 28 Ionawr 2016,
 - Cyfnod 1 ar 23 Chwefror,
 - Cyfnod 2 ar 2 Mawrth,
 - Cyfnod 3, a phasio'r Bil ar 8 Mawrth³⁴.
 - Cafodd Gydsyniad Brenhinol ar 24 Mawrth gan alluogi Cyllid yr Alban i ddechrau casglu treth atodol anheddau ychwanegol o 1 Ebrill, sef yr un dyddiad y dechreuodd CThEF gasglu'r cyfraddau uwch ar gyfer elfen anheddau ychwanegol treth dir y dreth stamp.
- 4.21 Ar y llaw arall, cyhoeddodd Llywodraeth y DU yn Natganiad yr hydref ar 25 Tachwedd 2015 y byddai'n cyflwyno deddfwriaeth ym Mil Cyllid 2016 ym mis Mawrth ar gyfer cyfradd uwch o dreth dir y dreth stamp i'w chymhwyso at drafodiadau lle y byddai prynwr a oedd eisoes yn berchen ar fuddiant mewn annedd yn prynu annedd arall (deddfwriaeth cyfundrefn anheddau ychwanegol treth dir y dreth stamp). Cyhoeddwyd ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig ar 28 Rhagfyr 2015, a ddaeth i ben ar 1 Chwefror 2016, gydag ymateb llywodraeth y DU yn cael ei gyhoeddi ar 16 Mawrth 2016 (sef dyddiad Cyllideb y DU), gyda'r Bil Cyllid yn cael ei osod gerbron Senedd y DU ar 22 Mawrth 2016 a'r penderfyniadau yn cael eu cymeradwyo ar 22 Mawrth 2016 er mwyn i gyfundrefn anheddau ychwanegol treth dir y dreth stamp ddod i rym ar 1 Ebrill 2016.
- 4.22 Fel y gwelir, er i gyfundrefn anheddau ychwanegol treth dir y dreth stamp a'r *Land and Buildings Transaction Tax Additional Dwelling Supplement* gael eu cyflwyno yn weithredol o 1 Ebrill 2016, roedd y trefniadau deddfwriaethol gwahanol yn golygu bod Senedd yr Alban wedi pasio deddfwriaeth y *Land and Buildings Transaction Tax Additional Dwelling Supplement* cyn i Fil Cyllid perthnasol y DU gael ei osod gerbron Senedd y DU.

³⁴ Dim ond tri chyfnod sydd yn Senedd yr Alban.

- 4.23 Enghraifft arall o ddeddfwriaeth sylfaenol yw'r Land and Buildings Transaction Tax (Relief from Additional Amount) (Scotland) Act 2018³⁵ a gyflwynwyd er mwyn i effaith newid a wnaed drwy is-ddeddfwriaeth gael effaith ôl-weithredol. Roedd y newid hwnnw'n ymwneud â'r dull o drin prynwyr ar y cyd mewn perthynas â'r *Land and Buildings Transaction Tax Additional Dwelling Supplement* o dan amgylchiadau penodol. Cafodd is-ddeddfwriaeth³⁶ ei chymeradwyo gan Senedd yr Alban ar 29 Mehefin 2017 a daeth i rym ar 30 Mehefin 2017. Nodir isod hynt y Bil drwy Senedd yr Alban.³⁷
- Cyflwynwyd ar 13 Tachwedd 2017,
 - Daeth cyfnod 1 i ben ar 6 Mawrth 2018,
 - Daeth cyfnod 2 i ben ar 25 Ebrill 2018,
 - Cyfnod 3 a'r ddadl derfynol 17 Mai 2018,
 - Cafodd Gydsyniad Brenhinol ar 22 Mehefin 2018.
- 4.24 Yn ogystal â darparu ar gyfer elfennau allweddol o *Scottish Aggregates Tax* yn y dyfodol (y disgwylir iddi gael ei chyflwyno ym mis Ebrill 2026), mae *Aggregates Tax and Devolved Taxes Administration (Scotland) Act 2024*³⁸ yn cynnwys nifer o newidiadau i Ddeddf Revenue Scotland a Phwerau Trethi 2014 y bwriedir iddynt helpu Revenue Scotland i gasglu treth mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n rhoi effaith ôl-weithredol i ddiwygiadau a wnaed i *Land and Buildings Transaction Tax (Group Relief Modification) (Scotland) Order 2018*³⁹.

Is-ddeddfwriaeth yr Alban

- 4.25 Mae pwerau gwneud rheoliadau helaeth yn y Deddfau trethi perthnasol yn ei gwneud yn bosibl i'r rhan fwyaf o newidiadau gael eu gwneud gan ddefnyddio SSI (cadarnhaol yn bennaf a nifer bach o rai cadarnhaol dros dro), gan gynnwys llawer o newidiadau sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol.
- 4.26 Fel arfer, gwneir newidiadau i gyfraddau neu fandiau yng nghyd-destun Cyllideb yr Alban, a gellir gwneud y newidiadau hyn a newidiadau eraill unrhyw bryd. Mae'r rhain yn defnyddio SSI cadarnhaol dros dro, sy'n ei gwneud yn bosibl i newidiadau ddod i rym ar unwaith bron (fel arfer o'r diwrnod ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi) ond rhaid i'r newidiadau hyn gael eu cymeradwyo wedyn o fewn 28 diwrnod gan Senedd yr Alban er mwyn iddynt barhau mewn grym.

³⁵ [Microsoft Word - QueensPrintCover.doc](#)

³⁶ [The Land and Buildings Transaction Tax \(Additional Amount-Second Homes Main Residence Relief\) \(Scotland\) Order 2017](#)

³⁷ [Land and Buildings Transaction Tax \(Relief from Additional Amount\) \(Scotland\) Bill | Scottish Parliament Website](#)

³⁸ [Aggregates Tax and Devolved Taxes Administration \(Scotland\) Act 2024](#)

³⁹ [The Land and Buildings Transaction Tax \(Group Relief Modification\) \(Scotland\) Order 2018](#)

- 4.27 Fel arfer, mae newidiadau nad ydynt i gyfraddau na bandiau yn cael eu rhagflaenu gan ymgynghoriad, gan gynnwys ar ddeddfwriaeth ddrafft, ond bydd yr amseriadau yn amrywio.
- 4.28 Mae angen i newidiadau eraill sy'n gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol gael slot Bil sy'n sefyll ar ei ben ei hun neu gael eu hymgorffori mewn Bil arall. Er enghraifft, defnyddiwyd Bil sy'n sefyll ar ei ben ei hun i gyflwyno *Land and Buildings Transaction Tax Additional Dwelling Supplement*, tra ymgorfforodd Rhan 2 o'r *Aggregates Tax and Devolved Taxes Administration (Scotland) Bill* nifer o fesurau penodol nad ydynt yn ymwneud â *Scottish Aggregates Tax*.
- 4.29 Yn ogystal â'r ddwy set o reoliadau i wneud newidiadau i reolau'r LBTT y cyfeiriwyd atynt uchod, mae naw set arall o reoliadau wedi'u gwneud mewn perthynas â'r LBTT ers mis Ebrill 2015. Cyflwynodd tair set ryddhadau newydd; yn 2015 ar gyfer trosi neu gyfuno endidau buddsoddi cyfunol penodol⁴⁰, yn 2018 rhyddhad i brynwyr tro cyntaf⁴¹, ac yn 2023 y rhyddhad ar gyfer trafodiadau tir mewn Porthladdoedd Rhydd Gwyrdd⁴². Gwnaeth pum set o reoliadau newidiadau i gyfraddau a bandiau'r LBTT (yn 2018, 2020 (dwy set o reoliadau), 2022 a 2024). Mae'r set olaf⁴³, a wnaed yn 2024, yn gwneud nifer o newidiadau i reolau'r LBTT, gan gynnwys cyflwyno rhyddhad newydd ar gyfer caffaeliadau penodol gan awdurdodau lleol, a nifer o ddiwygiadau i reolau *Land and Buildings Transaction Tax Additional Dwelling Supplement* (cyfraddau preswyl uwch).
- 4.30 Mewn perthynas â threth dirlenwi'r Alban (SLT), mae 14 o setiau o reoliadau wedi'u gwneud ers i SLT ddisodli treth dirlenwi llywodraeth y DU ym mis Ebrill 2015. Mae a wnelo 11 â'r cynnydd blynyddol yng nghyfraddau'r dreth. Cyflwynodd y tri arall newidiadau sy'n effeithio ar y ffordd caiff SLT ei gweithredu, nid i Dreth Dirlenwi (yr Alban) 2014, ond i reoliadau a wnaed drwy arfer y pwerau yn y Ddeddf honno. Y rheoliadau diwygio oedd *Scottish Landfill Tax (Prescribed Landfill Site Activities) Amendment Order 2022*⁴⁴, *Scottish Landfill Tax (Administration) Amendment Regulations 2017*⁴⁵, a *Scottish Landfill Tax (Qualifying Material) Order 2016*⁴⁶ (a ddiddymodd orchymyn gwreiddiol 2015).

Gweithgor Deddfwriaeth Trethi Datganoledig yr Alban

⁴⁰ [The Land and Buildings Transaction Tax \(Open-ended Investment Companies\) \(Scotland\) Regulations 2015](#)

⁴¹ [The Land and Buildings Transaction Tax \(First-Time Buyer Relief\) \(Scotland\) Order 2018](#)

⁴² [The Land and Buildings Transaction Tax \(Green Freeports Relief\) \(Scotland\) Order 2023](#)

⁴³ [The Land and Buildings Transaction Tax \(Miscellaneous Amendments\) \(Scotland\) Order 2024](#)

⁴⁴ [The Scottish Landfill Tax \(Prescribed Landfill Site Activities\) Amendment Order 2022](#)

⁴⁵ [The Scottish Landfill Tax \(Administration\) Amendment Regulations 2017](#)

⁴⁶ [The Scottish Landfill Tax \(Qualifying Material\) Order 2016](#)

- 4.31 Yn yr Alban, cyhoeddodd y Gweithgor Deddfwriaeth Trethi Datganoledig⁴⁷ adroddiad dros dro⁴⁸, a dynnodd sylw at rai o fanteision a heriau allweddol gwahanol opsiynau deddfwriaethol ar gyfer trethi datganoledig.
- 4.32 Ataliwyd y grŵp hwn dros dro ar ôl i'r adroddiad dros dro gael ei gyhoeddi ac nid yw wedi'i ailymgynnull. Fodd bynnag, gan gyfeirio at y materion a ystyriwyd, roedd strategaeth dreth ddiweddar Llywodraeth yr Alban⁴⁹ yn cynnwys ymrwymiad i wneud y canlynol: "...renew this consideration in light of the planned introduction of new taxes and seek the Scottish Parliament's participation in this work, given that the viability of any proposals may depend on changes to Parliamentary process and procedures".
- 4.33 Nododd yr ystyriaeth a roddodd y Grŵp i'r achos dros gyflwyno bil cyfatebol i Fil Cyllid y DU yn yr Alban fod angen ystyried perthnasedd proses flynyddol Bil Cyllid yr Alban a'r rhyngweithio â'r broses honno. Gan fod Cyllideb Cymru yn cael ei chymeradwy drwy gynnig cyllidebol yn hytrach na thrwy broses gyllidebol deddfwriaethol flynyddol, mae'r ystyriaethau mewn perthynas â Bil Cyllid yn wahanol yng Nghymru a'r Alban yn hyn o beth.

⁴⁷ [Devolved Taxes Legislation Working Group - gov.scot](https://www.gov.scot/devolved-tax-legislation-working-group)

⁴⁸ [\[ARCHIVED CONTENT\]](#)

⁴⁹ [Scotland's Tax Strategy: Building on our Tax Principles](#)

Adran 5 – Dulliau posibl o wneud newidiadau gan gynnwys materion sy'n codi a'r ddeddfwriaeth y gallai fod ei hangen i hwyluso'r broses o wneud y newidiadau hynny

Pwerau gwneud rheoliadau presennol Gweinidogion Cymru

- 5.1 Diben y papur gwyrdd hwn yw helpu i lywio Gweinidogion Cymru wrth iddynt gyflawni eu rhwymedigaeth statudol i adolygu'r ffordd y mae Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 yn cael ei weithredu a'i heffaith, gan gynnwys asesu mecanweithiau deddfwriaethol amgen ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru.
- 5.2 Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r broses o ddatblygu unrhyw fecanweithiau newydd arwain at newidiadau i'r pwerau gwneud rheoliadau a ddarperir eisoes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu Senedd Cymru i Weinidogion Cymru yn nhair Deddf Trethi bresennol Cymru. Fodd bynnag, hoffem gael unrhyw farn a all fod gennych ar y dull arfaethedig hwn o weithredu.
- 5.3 Er enghraifft, mae defnyddio rheoliadau cadarnhaol 'gwnaed' i newid y cyfraddau ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi a'r cyfraddau a'r bandiau yn y dreth trafodiadau tir wedi'i gwneud yn bosibl i newidiadau i gyfraddau gael eu gwneud yn fwy amserol. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos y dreth trafodiadau tir, lle y bu'n bosibl i newidiadau i'r dreth trafodiadau tir ddod i rym er mwyn lleihau atebolrwyddau treth ein trethdalwyr yn ystod toriad haf y Senedd yn 2020, ar ôl i gyfleoedd gael eu creu o ganlyniad i newidiadau a wnaed gan lywodraeth y DU i dreth dir y dreth stamp ychydig cyn toriad Senedd y DU.
- 5.4 Yn yr un modd ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi, roedd y pwerau gwneud rheoliadau wedi'i gwneud yn bosibl i ddau ryddhad gael eu diwygio er mwyn rhoi sicrwydd i'r busnesau hynny sy'n adfer safleoedd (Hydref 2018) neu ail-lenwi mwyngloddiau brig a chwareli (Gorffennaf 2019) gan ei gwneud yn bosibl i'r busnesau hynny gael sicrwydd cyfreithiol yn gynnar a dechrau ar y gwaith adfer pwysig hwnnw cyn gynted â phosibl.
- 5.5 Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod defnyddio pwerau ym mhob achos, fel y dangosir gan yr enghreifftiau hyn, yn fuddiol ac yn briodol. Mewn llawer o achosion, bu'n rhaid gwneud y newidiadau y tu allan i gylch cyllidebol Llywodraeth Cymru, er mwyn rhoi sicrwydd y gyfraith yn gynnar i drethdalwyr, ar ôl i'r Senedd gymeradwyo'r newidiadau hynny. Nid ystyrir bod cynnal gweithgarwch tebyg drwy gyfres o filiau ar wahân drwy gydol y flwyddyn, neu drwy gyhoeddi deddfwriaeth ddrafft y bwriedir iddi fod yn ôl-weithredol, yn rhoi'r sicrwydd cyfreithiol cynnar hwnnw. Fodd bynnag, unwaith eto hoffem gael unrhyw farn a all fod gennych ar y dull arfaethedig hwn o weithredu.

Bil cyllid blynyddol i Gymru

- 5.6 Gellid datblygu proses bil cyllid blynyddol i Gymru a fyddai'n golygu bod bil yn cael ei osod gerbron Senedd Cymru ar yr un dyddiad y cyhoeddir y gyllideb ddrafft, neu'n fuan ar ôl hynny. Yna, mae'n debygol y byddai angen i'r Bil hwnnw ddilyn proses garlam er mwyn sicrhau y byddai'r Bil, a'r gyllideb, yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd erbyn y dyddiad y mae'n rhaid i gyllid awdurdodau lleol a chyrff eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru gael ei gadarnhau (erbyn dechrau mis Mawrth fan bellaf).
- 5.7 Mae llywodraeth y DU wedi ymrwymo i un digwyddiad cyllidebol blynyddol yn yr hydref lle y caiff newidiadau i drethi eu gwneud neu eu cyhoeddi. Cynhaliwyd y gyllideb ddiwethaf ar 30 Hydref 2024, gyda chyllideb ddrafft Cymru yn cael ei chyhoeddi ar 10 Rhagfyr 2024. Cymeradwywyd y cynnig ar gyfer y gyllideb derfynol ar 4 Mawrth 2025.
- 5.8 Gall fod diwygiadau y mae Llywodraeth Cymru am eu gwneud i Ddeddfau Trethi Cymru ar wahân i unrhyw ymateb i newidiadau a wneir gan lywodraeth y DU i'r trethi rhagflaenol neu'r rheolau ynglŷn â chasglu trethi ac ati. Bydd angen pennu'r amseriad ar gyfer gosod Bil Cyllid Cymru gerbron Senedd Cymru a fydd, yn ddelfrydol, yn dilyn digwyddiad cyllidebol y DU. Mae dau opsiwn posibl ar gyfer amseriad gosod Bil Cyllid Cymru gerbron Senedd Cymru (er yr hoffem gael unrhyw farn a all fod gennych am opsiynau eraill):
- ar ddyddiad cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru (yn yr hydref bob blwyddyn ac, o bosibl, weithiau yn ystod toriad y Nadolig.
 - cyn dyddiad cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, gan gael ei gyflwyno, o bosibl, cyn neu ar ôl cyllideb llywodraeth y DU a dyddiad cyhoeddi ei bil cyllid.
- 5.9 Mae gwahanol faterion yn codi gyda phob un o'r opsiynau. Byddai gosod Bil Cyllid Cymru gerbron y Senedd ochr yn ochr â chyllideb ddrafft Cymru yn rhoi'r cyfnod mwyaf o amser cyn gosod y Bil i Weinidogion Cymru ystyried effeithiau bil cyllid llywodraeth y DU a chyfarwyddo swyddogion ynglŷn â'r ymateb a ffeirir ganddynt. Yna, efallai y bydd yn bosibl i swyddogion ddatblygu'r ddeddfwriaeth angenrheidiol, y costau, y memorandwm esboniadol ac asesiadau integredig ac asesiadau effaith rheoleiddiol mewn pryd i Fil Cyllid Cymru sydd i'w osod gerbron y Senedd gynnwys y ddeddfwriaeth. Bydd a yw hynny'n bosibl yn dibynnu ar gymhlethdod y newidiadau y mae angen ymateb iddynt a'r cyfnod o amser rhwng cyhoeddi bil cyllid llywodraeth y DU a chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.
- 5.10 Os na fydd digon o amser rhwng cyhoeddi bil cyllid llywodraeth y DU a chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru i'r ddeddfwriaeth, a dogfennau angenrheidiol eraill, fod yn barod, yna y dewis fydd cyflwyno'r newidiadau yng Nghyfnod 2 os yw'n bosibl, er mwyn gwneud rheoliadau i wneud y newid (os bydd y pwerau angenrheidiol ar gael), neu aros tan y flwyddyn ganlynol i gyflwyno'r newidiadau.
- 5.11 Byddai'r ail ddull o osod Bil Cyllid Cymru gerbron Senedd Cymru cyn bil cyllid llywodraeth y DU yn golygu y byddai angen i unrhyw newidiadau sydd eu hangen i ymateb i newidiadau i drethi rhagflaenol gael eu cyflwyno yng Nghyfnod 2, neu Gyfnod 3 o bosibl, a fyddai'n cyfyngu ar yr amser ar gyfer craffu gan y Senedd. Unwaith eto, byddai'r amser sydd ei angen i ddrafftio'r

gwelliannau angenrheidiol a dogfennau eraill yn dibynnu ar gymhlethdod y newidiadau.

- 5.12 Mae pob opsiwn yn codi materion gwahanol. Byddai'r dull cyntaf yn lleihau'r amser craffu sydd ar gael i Bwyllgorau'r Senedd yn ogystal â gallu trethdalwyr a chyrff cynrychioliadol i ystyried ac ymateb gan y byddai'r cyfnod rhwng gosod y bil gerbron y Senedd a'r bleidlais i'w gymeradwyo yn cael ei leihau. Hyd yn oed gan ddarparu ar gyfer yr amser ychwanegol, byddai hefyd yn golygu, o bosibl, gyflwyno newidiadau sylweddol yng Nghyfnod 2, gan gyfyngu ar yr amser craffu a fyddai ar gael i'r Senedd. Byddai'r ail ddull yn golygu y bydd gan Bwyllgorau'r Senedd a phartïon eraill â diddordeb fwy o amser i ystyried y newidiadau a gyflwynir pan osodir Bil Cyllid Cymru gerbron y Senedd, ond byddai angen i ymatebion i newidiadau i drethi rhagflaenol bob amser gael eu cyflwyno fel gwelliannau yng Nghyfnod 2 neu, o bosibl, Gyfnod 3.
- 5.13 Fodd bynnag, gallai fod yn anodd iawn, os nad yn amhosibl, i'r amserlen sydd ei hangen ar gyfer Bil Cyllid Cymru gynnwys amser ar gyfer ymgynghori ar y cynigion mewn ymateb i gynigion cyllidebol y DU i'r trethi rhagflaenol.
- 5.14 Gallai hefyd fod angen darparu ar gyfer proses debyg i drefniadau Deddf Casglu Trethi Dros Dro 1968 er mwyn i Weinidogion Cymru, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, allu cyflwyno newidiadau i fod yn weithredol ar unwaith ond dros dro cyn ystyried y ddeddfwriaeth a chraffu arni drwy Gyfnodau'r Bil (gweler isod). Byddai'r ffaith nad oes dull ar gael o dan y Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro yn golygu mai'r dyddiad cynharaf y gellid rhoi unrhyw newidiadau ar unwaith fyddai'r diwrnod ar ôl i Fil Cyllid Cymru gael Cydsyniad Brenhinol, a fyddai'n darparu ar gyfer gweithgarwch rhagflaenu annymunol.

Bil trethi blyneddol (neu lai mynych) i Gymru

- 5.14 Byddai bil trethi yn debyg i fil cyllid (gan y byddai'n darparu'r cyfrwng deddfwriaethol i wneud newidiadau i ddeddfwriaeth trethi) ond ni fyddai cysylltiad yr un mor uniongyrchol rhyngddo â phroses y gyllideb gan na fyddai angen i'r bil trethi gael ei basio erbyn dyddiad y bleidlais derfynol ar y gyllideb.
- 5.15 Byddai hyn yn golygu, pan fyddai Llywodraeth Cymru am wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru a phan fyddai'r Senedd am i'r Bil ddilyn yr amserlen arferol ar gyfer Biliau, y gallai bil trethi ddilyn yr amserlen ddamcaniaethol hon. Gellid cyflwyno'r bil trethi ym mis Medi er mwyn cynnwys y newidiadau y byddai Gweinidogion Cymru am eu gwneud, gallai Cyfnod 1 ddod i ben ym mis Rhagfyr neu fis Ionawr, byddai Cyfnod 2 yn dechrau ym mis Rhagfyr/Ionawr (a gallai gwelliannau gynnwys y rhai i ystyried Cyllideb hydref y DU), gallai Cyfnod 3 ddechrau ym mis Chwefror, gyda'r bleidlais ar Gyfnodau 3 a 4 yn cael ei chynnal ym mis Mawrth, gyda'r bil yn cael Cydsyniad Brenhinol ym mis Mai yn dilyn y cyfnod hysbysu.
- 5.16 Gallai'r bil trethi hefyd ddilyn llwybr carlam drwy'r Senedd, er bod y gallu i gynnwys ymatebion Llywodraeth Cymru i'r trethi rhagflaenol, mewn sefyllfa o'r fath, yn fwy cyfyngedig. Bydd hyn yn arbennig o wir os ystyrir bod angen ymgynghori ar y newidiadau arfaethedig.

- 5.17 Yn wahanol i broses flynyddol Bil Cyllid Cymru, dim ond pan fyddai Gweinidogion Cymru o'r farn bod ei angen y byddai bil trethi yn cael ei osod gerbron y Senedd. Felly, os bydd nifer o newidiadau y mae Gweinidogion Cymru am eu gwneud, efallai y byddant yn dewis aros nes bod digon o newidiadau i'w gwneud er mwyn sicrhau bod gosod bil trethi gerbron y Senedd yn briodol. Bydd yr amseriad hwnnw yn dibynnu ar newidiadau y mae'n ddymunol eu gwneud, ond a allai aros am flwyddyn neu ddwy, a'r rhai sydd angen eu cyflwyno ar unwaith neu bron ar unwaith. Gallai fod angen cyflwyno newidiadau ar unwaith os bydd newid i'r trethi rhagflaenol a fydd yn cael effaith sylweddol ar refeniw treth, neu os ceir nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn gweithio fel y bwriadwyd yn wreiddiol.

A oes angen math o Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro 1968 i Gymru?

- 5.18 Mae Deddf Casglu Trethi Dros Dro 1968 yn galluogi llywodraeth y DU i gyflwyno rhai newidiadau i'w threthi i fod yn weithredol (bron) ar unwaith neu, fel arall, cyn i'r bil cyllid gael Cydsyniad Brenhinol. Rhoddir y newidiadau ar waith drwy benderfyniadau a gymeradwyir gan Dŷ'r Cyffredin. Mae hyn yn digwydd ar ddiwedd diwrnod y datganiad cyllideb, neu ddigwyddiad cyllid arall o'r fath lle y bwriedir cyflwyno newidiadau i drethi ar unwaith.
- 5.19 Mae Deddf Casglu Trethi Dros Dro 1968 yn cynnwys nifer o reolau sy'n pennu terfynau amser ar ba bryd y bydd y penderfyniadau yn peidio â chael effaith⁵⁰. Mae'r brif reol yn nodi y bydd penderfyniad yn peidio â chael effaith statudol os na chaiff bil sy'n adnewyddu, yn amrywio neu'n diddymu'r dreth ei ddarllen yr ail waith⁵¹ gan Dŷ'r Cyffredin o fewn y 30 diwrnod nesaf ar ôl y diwrnod y caiff y penderfyniad ei basio. Ceir hefyd derfyn amser o saith mis o'r dyddiad y mae'r penderfyniad yn gymwys cyn iddo beidio â chael effaith. Mae gweithdrefnau'r Senedd yn wahanol i rai Senedd y DU a'r weithdrefn gyfatebol agosaf yw'r ddadl Lawn a gynhelir ychydig ar ôl y dyddiad y cyflwynir y bil neu, o bosibl, ychydig ar ôl cyhoeddi amserlen y Pwyllgor Busnes ar gyfer ystyried y bil⁵².
- 5.20 Bydd ffurf ar Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro 1968 yn ddymunol, o bosibl, yng Nghymru er mwyn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael cyfle i gyflwyno newidiadau i fod yn weithredol ar unwaith fel na fydd angen i newidiadau angenrheidiol, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, aros nes i unrhyw fil dilynol gael Cydsyniad Brenhinol. Gall trefniant Cymreig tebyg i Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro 1968 ddilyn model y DU o Ddeddf gyda phroses benderfynu debyg yn gofyn am gymeradwyaeth y Senedd.
- 5.21 Fel arall, gellid mabwysiadu dull amgen gyda'r 'Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro Gymreig' yn darparu pŵer gwneud rheoliadau â chymal machlud, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed', lle y byddai Gweinidogion Cymru yn gwneud y rheoliadau ac, o fewn 28 diwrnod, y byddai angen i'r Senedd gymeradwyo'r rheoliadau er mwyn iddynt barhau i fod mewn grym.

⁵⁰ [Deddf Casglu Trethi Dros Dro 1968](#) – is-adrannau 1(4) ac 1(5).

⁵¹ [Ail Ddarlleniad \(Tŷ'r Cyffredin\) – Senedd y DU](#)

⁵² Gweler [Bil Llety Ymwelwyr \(Cofrestr ac Ardoll\) Etc. \(Cymru\)](#) ([Cyfarfod Llawn 26/11/2024 – Senedd Cymru](#) a [Timetable for consideration: The Visitor Accommodation \(Register and Levy\) Etc. \(Wales\)](#) yn y drefn honno)

Byddai rhoi effaith dros dro naill ai drwy benderfyniad gan y Senedd neu reoliadau cadarnhaol 'gwnaed' a fyddai'n cael eu cymeradwyo wedyn gan y Senedd, yn cael ei ddilyn gan y newidiadau yn cael eu cynnwys ym Mil Cyllid neu Drethi Cymru i'w hystyried drwy gyfnodau'r bil gan y Senedd y unol â'r amserlen y cytunwyd arni ar gyfer y bil dan sylw. Ar ôl i Fil Cyllid neu Drethi Cymru gael Cydsyniad Brenhinol, byddai'r penderfyniad neu'r rheoliadau yn peidio â chael effaith.

- 5.22 Mae i'r ddau ddull fanteision ac anfanteision. Mewn perthynas â'r 'dull penderfyniadau', ceid cymeradwyaeth y Senedd ar yr un diwrnod y cyflwynir y penderfyniad hwnnw gan Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, mae sawl anfantais bosibl yn codi. Byddai angen i'r Senedd fod yn eistedd er mwyn i'r penderfyniadau gael eu pasio (pe bai newid yn cael ei gyflwyno gan lywodraeth y DU yn agos i doriad byddai hynny'n golygu aros nes i'r toriad ddod i ben neu i'r Senedd gael ei hadalw), a gallai mynediad at y newidiadau deddfwriaethol fod yn anos am nad ydynt yn arwain at newid y ddeddfwriaeth mewn gwirionedd ond yn hytrach mae angen darllen y penderfyniadau ar y cyd â deddfwriaeth bresennol er mwyn deall effaith y newidiadau. At hynny, er y gallai gwelliannau fod yn bosibl, nid yw bob amser yn hawdd cael mynediad at benderfyniadau llywodraeth y DU.
- 5.23 Mewn perthynas â'r 'dull rheoliadau', y manteision yw y gellir rhoi'r newidiadau mewn grym pan na fydd y Senedd yn eistedd, sy'n golygu y gellir gwneud newidiadau mor gyflym â phosibl gyda rôl y Senedd yn dal i fod yn allweddol am fod yn rhaid iddi gymeradwyo'r rheoliadau er mwyn i'r newidiadau allu pharhau i gael effaith nes i Fil Cyllid neu Drethi dilynol Cymru gael Cydsyniad Brenhinol. Bydd newidiadau a wneir gan ddefnyddio'r dull hwn hefyd yn golygu y caiff y ddeddfwriaeth berthnasol ei chyhoeddi ar wefan legislation.gov.uk, ac y caiff Deddf Trethi Cymru berthnasol, os mai i'r ddeddfwriaeth sylfaenol y mae'r newidiadau yn cael ei gwneud, ei diweddaru er mwyn adlewyrchu'r newidiadau. Bydd hyn yn rhoi mwy o eglurder a sicrwydd i'n trethdalwyr gan y caiff y gyfraith sydd mewn grym ei hadlewyrchu ar wefan legislation.gov.uk gan roi darlun clir a hygyrch i'n trethdalwyr a'u cynghorwyr o'r ddeddfwriaeth sydd mewn grym.
- 5.24 Byddai newidiadau a fyddai'n cael eu gwneud gan ddefnyddio'r dull penderfyniadau neu'r dull rheoliadau yn gofyn am gymal machlud. Mae'r Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro yn ei gwneud yn ofynnol i fil sy'n cynnwys y newidiadau a wneir gan y penderfyniadau hynny gyrraedd ail ddarlleniad o fewn 30 diwrnod i basio'r penderfyniadau hynny. Ceir hefyd gymal machlud arall i gyfyngu ar y cyfnod y gall penderfyniadau o dan y Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro fod ar waith⁵³, sef, yn fras, saith mis ar ôl iddynt gael eu gwneud. Mae'n debygol o fod yr un mor bwysig bod set debyg o gymalau machlud yn cael eu darparu neu, o bosibl, fod un cymal machlud yn gymwys o dan y naill amgylchiad neu'r llall.
- 5.25 Byddai unrhyw gyfnod ar gyfer cymal machlud yn dibynnu ar b'un a benderfynir cael proses bil cyllid flynyddol, neu broses bil trethi gydag ystyriaeth ychwanegol yn cael ei rhoi i'r cymal machlud os bydd y bil trethi ar sail lai na sail flynyddol. Mae adran 109 o Ddeddf Cyllid 2003 (gweler

⁵³ Adran 1(3) o Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro 1968

paragraff 4.10 uchod) yn darparu cyfnod machlud o hyd at 18 mis gan roi cyfle i lywodraeth y DU gynnwys y newid deddfwriaethol yn y bil cyllid nesaf neu, o bosib, yr un ar ôl hynny.

Fersiwn newydd o Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru addasu Deddfau Trethi Cymru

- 5.26 Mae gan Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022⁵⁴ gymal machlud a fydd yn golygu bod y pŵer a roddir gan y Senedd i Weinidogion Cymru yn y Ddeddf honno yn peidio â bod ar gael ar 8 Medi 2027. Mae Deddf Deddfau Trethi Cymru (Pŵer i Addasu) 2022 hefyd yn cynnwys y gallu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, estyn y cyfnod y mae'r pŵer ar gael hyd at 30 Ebrill 2031. Mae'r estyniad yn amodol ar y rheoliadau (y weithdrefn gadarnhaol ddrafft) yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd.
- 5.27 Gallai estyniad fod yn ddymunol er mwyn darparu'r pŵer gwneud rheoliadau am gyfnod hwy er mwyn i'r Senedd nesaf a Llywodraeth Cymru sefydlu'r dull newydd o wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru. Un opsiwn posibl fyddai i'r pŵer hwnnw gael ei ddarparu unwaith eto i Weinidogion Cymru, naill ai gyda chymal machlud neu hebddo.

Caniatáu i Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 gyrraedd ei phwynt machlud ac yna ddibynnu ar y pwerau gwneud rheoliadau a'r deddfwriaeth sylfaenol bresennol pan fo angen

- 5.28 Byddai'r opsiwn posibl hwn yn golygu bod y sefyllfa yn dychwelyd, i bob pwrpas, i'r hyn a fodolai cyn i'r Senedd gymeradwyo'r Bil a ddaeth yn Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022.
- 5.29 Byddai Llywodraeth Cymru, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, yn parhau i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru gan ddefnyddio'r pwerau is-ddeddfwriaeth a oedd wedi cael eu darparu. Pe na bai'r pwerau yn bodoli i'r newid gael ei wneud, yna gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol i roi'r newidiadau angenrheidiol ar waith. Mewn rhai achosion, gallai'r newidiadau hynny fod wedi bod yn bosibl gan ddefnyddio'r pŵer a ddarperir gan Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022, ond pan na fydd y Ddeddf mewn grym mwyach, byddai angen i newidiadau o'r fath gael eu gwneud gan ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol.

⁵⁴ Gweler paragraffau 3.24-3.27

Adran 6 – Cwestiynau

- 6.1 A ydych yn ymwybodol o enghreifftiau o ddeddfwrfeydd eraill a allai ddarparu enghreifftiau defnyddiol i weinyddiaeth ddatganoledig (gan ddarparu ar gyfer gwahaniaethau cyfansoddiadol a chyfreithiol)? Esboniwch pam y gallai'r trefniadau hyn fod yn addas i Gymru.
- 6.2 Yn eich barn chi, a ddylai'r pwerau is-ddeddfwriaeth presennol barhau i fod ar gael i Weinidogion Cymru yn y Deddfau Trethi Cymru perthnasol? Esboniwch eich ymateb.
- 6.3 Yn eich barn chi, a ddylid dileu'r holl bwerau is-ddeddfwriaeth sydd ar gael i Weinidogion Cymru o'r Deddfau Trethi Cymru perthnasol? Esboniwch eich ymateb.
- 6.4 Yn eich barn chi, a ddylid dileu rhai pwerau is-ddeddfwriaeth sydd ar gael i Weinidogion Cymru o'r Deddfau Trethi Cymru perthnasol? Os felly, nodwch pa rai ac esboniwch pam.
- 6.5 Yn eich barn chi, pa broses y dylid ei defnyddio yn y dyfodol i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru –
- a. bil cyllid blynyddol i Gymru,
 - b. bil trethi blynyddol (neu lai mynych) i Gymru,
 - c. fersiwn newydd o Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 a gymeradwywyd gan y Senedd,
 - d. unwaith y bydd Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 weddi cyrraedd ei phwynt machlud, dibynnu ar y pwerau gwneud rheoliadau a'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol yn ôl yr angen, neu
 - e. ddull gwahanol (nodwch pa ddull).

Esboniwch eich rhesymau.

- 6.6 Yn dibynnu ar eich ateb i gwestiwn 5, yn eich barn chi, a oes angen proses i roi newidiadau ar waith cyn i'r bil cyllid/trethi ddod i rym? Os felly, yn eich barn chi, a fyddai dull casglu trethi dros dro, dull is-ddeddfwriaeth (gyda chymal machlud – 'dull seiliedig ar adran 109 o Ddeddf Cyllid 2003'), neu ddull arall yn fwy priodol i Gymru?

Esboniwch eich rhesymau.

- 6.7 Yn eich barn chi, a yw'n briodol i Weinidogion Cymru gyfyngu ar gwmpas unrhyw Filiau cyllid neu drethi a osodir gerbron y Senedd neu a ddylai unrhyw newidiadau y tu hwnt i welliannau i'r rhai a gynigir gan Weinidogion Cymru fod yn bosibl? Os ydych yn credu y dylai fod cyfyngiadau yng nghwmpas Bil o'r fath, beth yw'r mecanwaith priodol ar gyfer gwneud hynny, yn eich barn chi?

Esboniwch eich rhesymau.

- 6.8 Yn eich barn chi, a ddylid estyn y cymal machlud ar gyfer y pŵer i wneud rheoliadau a roddir i Weinidogion Cymru gan y Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) hyd at 30 Ebrill 2031, neu ddyddiad arall, er mwyn rhoi digon o amser i'r llywodraeth nesaf ddatblygu'r dull gweithredu a ddewisir ganddi?
- 6.9 Unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ynghylch sut y gellid a/neu y dylid gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru.

Adran 7 – Y Gymraeg

- 7.1 Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am sylwadau ar unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai effeithiau tebygol y cynigion hyn ar y Gymraeg yn eich barn chi?

Adran 7 Cwestiynau

- 7.1.1 A oes unrhyw gyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol, yn eich barn chi?
- 7.1.2 A oes unrhyw gyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol, yn eich barn chi?
- 7.1.3. Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid y cynigion er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?
- 7.1.4 Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid y cynigion er mwyn liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?